CAEL GWAITH, ADDYSG a CHYNGOR
mewn ardaloedd gwledig

GAINING WORK, LEARNING & ADVICE
in rural areas

GWLAD

YMATEB I ANGHENION DYSGU GWLEDIG YNG NGOGLEDD CYMRU: Gwersi a Ddysgwyd ac Argymhellion

Adroddiad Terfynol prosiect GWLAD

Tachwedd 2007

YR UNDEB EWROPEAIDD
EQUAL
EUROPEAN UNION
EQUAL
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CYNNWYS

1. Nodau'r Prosiect 4

2. Ein dull o weithredu 4

3. Beth a wnaethom 4

4. Gweithio'n drawswladol 6

5. Y gwersi a ddysgwyd 6

6. Argymhellion 7

CEFNDIR

Cafodd y prosiect **GWLAD** ei ariannu trwy ESF EQUAL 2 ac fe'i gweithredwyd trwy Bartneriaeth Ddatblygu yn gweithio o fewn maes thematig cymhwysedd a dysgu gydol oes EQUAL. Roedd y bartneriaeth yn cynnwys asiantaethau addysgol, statudol, cymunedol a gwirfoddol. Dyma'r rhai a gymerodd ran yn ystod Gweithred 2, pan ddatblygwyd gweithgareddau'r prosiect:

- **Ysgol Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Bangor.**
  Yr Ysgol Dysgu Gydol Oes yw'r partner arweiniol. Mae gan yr ysgol brofiad o ledaenu cyfranogiad ac addysg i oedolion ac addysg barhaus, gan weithio ym mhob rhan o ogledd Cymru.
- **CAIS** yw prif ddarparwr gwasanaethau cyffuriau ac alcohol yn y sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae wedi datblygu rhaglenni ar gyfer pobl gyflogedig a phobl ddi-waith sy'n atal niwed cysylltiedig â chyffuriau ac alcohol, ac yn helpu pobl i gael gwaith ac i gadw eu gwaith.
- **Medrwn Môn** yw'r corff ymbarél ar Ynys Môn sy'n darparu gwybodaeth a chyngor ar wirfoddoli ac yn cynrychioli'r sector gwirfoddol.
- **BEN (Ben Environment Network)** sy'n hybu cyfle cyfartal mewn perthynas â chymunedau ethnig o ran cadw, diogelu a datblygu'r amgylchedd.
- Mae **Bwrdd yr Iaith Gymraeg** yn gorff statudol a'i brif swyddogaeth yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg.
- **Y Brifysgol Agored** yw'r darparwr mwyaf o addysg uwch ran amser yn y Deyrnas Unedig a'r unig un sy'n ymroddedig i ddysgu o bell.

Mae'r holl bartneriaid uchod wedi cymryd rhan mewn un neu fwy o weithgareddau GWLAD. Mae partneriaid eraill Gwlad yn cynnwys **Chwarae Teg**, a **Stonewall**, sydd wedi rhoi mewnbwn gwerthfawr i bolisi cyfle cyfartal GWLAD a'r defnydd ohono. Hefyd cafwyd mewnbwn gwerthfawr yn rhan gyntaf y prosiect gan **Rwydwaith Gwybodaeth Gofid Cefn Gwlad (RSIN)** ac **Alfred McAlpine Slate Ltd.**

1. Yr oedd **nodau'r prosiect** yn canolbwyntio ar ddarparu dysg a phrofiadau sy'n berthnasol i ennill gwaith (neu'n arwain at ddysgu pellach), yn arbennig i grwpiau sydd wedi eu hallgau yn gymdeithasol yn ardaloedd gwledig gogledd Cymru. Gwneir hynny, yn fwyaf penodol:

- trwy ddatblygu dulliau arloesol o weithredu dysgu gydol oes;
- trwy rymuso grwpiau sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol;
- trwy ganolbwyntio ar gysylltu dysg a chyflogaeth;
- trwy sicrhau y cedwir at egwyddorion cyfle cyfartal.

2. Sut y gweithredom:

- trwy ymchwilio i'r rhwystrau sy'n atal cyflogaeth a dysg trwy gynnull grwpiau ffocws, cyfweld ag ystod o wahanol unigolion a chymunedau sydd â diddordeb er mwyn canfod anghenion dysgu a hyfforddi. Ategwyd hyn gan ymchwil a wnaed mewn prosiectau cynharach fel SEQUAL a thrwy gyfeirio at lenyddiaeth berthnasol. Yn gyffredinol defnyddiwyd dull ymchwil gweithredol lle mae ymchwil a gweithgareddau wedi eu cysylltu'n agos;
- trwy weithio gyda phartneriaid, cymunedau ac ystod o wahanol asiantaethau i ddatblygu gweithgareddau yn unol â chanfyddiadau'r ymchwil;
- trwy rwydweithio gydag asiantaethau a darparwyr gwasanaeth sy'n gweithio gyda grwpiau sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol o fewn partneriaeth GWLAD a thu allan;
- trwy weithio gyda phobl mewn cymunedau i ddynodi eu hanghenion a darparu gweithgareddau priodol yn eu hardaloedd eu hunain.

Roedd egwyddorion grymuso, arloesi a chyfle cyfartal EQUAL yn tanategu ein dull o weithredu.

3. Ein dull o weithredu:

Bu'r partneriaid, yn unigol neu ar y cyd, yn datblygu a gweithredu ystod amrywiol iawn o weithgareddau. Roeddent i gyd wedi eu hanelu at hwyluso cyfranogiad mewn dysgu neu gyflogaeth i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Roedd y rhan fwyaf o'r

gweithgareddau wedi eu hanelu'n arbennig at y bobl hynny sydd wedi eu hallgau'n gyffredinol o gyfleoedd addysgu. Er enghraifft:

- **DULLIAU ARLOESOL O WEITHREDU DYSGU GYDOL OES**
  Roedd y dull DYSGU CYFUNOL yn galluogi darlithwyr i ddatblygu adnoddau ar lein, paratoi deunydd manwl iawn a threialu dysgu cyfunol dewis rhydd gyda grŵp o fyfyrwyr aeddfed. Gyda'r dull hwn mae myfyrwyr yn gallu dewis dull o weithio'n gyfan gwbl wyneb yn wyneb, yn gyfan gwbl ar lein neu gyfuniad o'r ddau. Mae'r dull yma o weithredu yn addas ar gyfer ardaloedd gwledig gwasgaredig.
- **GRYMUSO GRWPIAU SYDD WEDI EU HALLGAU'N GYMDEITHASOL**
  GWEITHDAI HYFFORDDI SGILIAU AR GYFER GWEITHWYR MUDOL ECONOMAIDD, gan gysylltu dulliau arloesol o weithredu gyda dysgu a grymuso pobl o grwpiau sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol. Roedd seminarau Saesneg sylfaenol wedi eu hanelu at helpu pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol i ddatblygu eu sgiliau Saesneg ac ar yr un pryd ennill gwybodaeth berthnasol i waith.

  Amcan BEN oedd gwella a datblygu sgiliau trwy archwilio materion mynediad at hyfforddiant/cyfleoedd addysg yng nghyd-destun y sectorau amgylchedd naturiol, gweithgareddau awyr agored ac amgylchedd hanesyddol. Cynhyrchwyd dau gyhoeddiad, ***"Partneriaethau Dysgu Anffurfiol ar gyfer ymgysylltu gyda chymunedau ethnig:*** *Canllawiau i'r sectorau Amgylcheddol a Threftadaeth"* a ***"Hoffi Cefn Gwlad Gweithio i Gefn Gwlad:*** *Cyfleoedd gwaith i'w hystyried yn y sectorau Amgylcheddol a Threftadaeth".*

  GWEITHGAREDDAU I GYMUNEDAU GWLEDIG. Mae grŵp dysgu, sy'n cynnwys dynion hŷn cysylltiedig ag amaethyddiaeth yn bennaf, wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu seiliedig ar iaith a diwylliant. Hefyd yn yr un gymuned cynhaliwyd dosbarthiadau i bobl ifanc ar sut i wneud fideo, a chwrs busnes i ferched. Darparwyd y gweithgareddau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg.
- **CYSYLLTU DYSG A CHYFLOGAETH**
  Y dull o ddysgu a ddefnyddir gan CAIS yw defnyddio ymyriad ysgogiadol lle gall pobl reoli eu camddefnydd o sylweddau fel y gallant gael gwaith neu aros mewn cyflogaeth. Arweiniodd hyn at

ddau gyhoeddiad, ***"Llawlyfr Ymyriadau Byr"*** a'r adroddiad ***"Ymyriadau Ysgogiadol Cyfrifiadurol Byr ar gyfer Camddefnyddwyr Sylweddau Cyflogedig a Di-waith"***.

Mae MEDRWN MÔN wedi ymchwilio i ddichonoldeb cychwyn cynllun dan arweiniad y cyflogwr gyda busnesau ar draws yr ynys ac mae wedi datblygu pecyn cymorth, ***"Gwirfoddoli gyda Chymorth Cyflogwyr"***.

Dim ond rhestr enghreifftiol yw hon. Gellir cael adroddiad mwy manwl am ein gweithgareddau yn ein hadroddiad **"Ymateb i Anghenion Dysgu yn Ardaloedd Gwledig Gogledd Cymru"** neu trwy fynd i'n gwefan, *www.gwlad.org*

4. Gweithio'n trawswladol:

Mae ein gwaith wedi cael budd sylweddol o elfen drawswladol ein prosiect. Yr ydym wedi rhannu arferion da gyda phrosiectau EQUAL eraill yn y Weriniaeth Tsiec, Ffrainc a Gwlad Belg, gan edrych yn arbennig ar ffyrdd o ysgogi dysgwyr, dulliau o achredu dysgu profiannol, a manteision ac anawsterau e-ddysgu. Roedd ein gwaith trawswladol hefyd yn cynnwys cyfnewid staff gyda phrosiect oedd yn gweithio mewn ardal wledig yn y Weriniaeth Tsiec a oedd yn debyg iawn i ogledd Cymru.

5. Y Gwersi a ddysgwyd:

- Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd gweithgareddau dysgu anffurfiol pleserus. Yn aml dyma'r ffordd allweddol o gael y cysylltiad cyntaf gyda grwpiau anodd eu cyrraedd. Mae'n bwysig pwysleisio nad yw dysgu anffurfiol o anghenraid yn gyfystyr â dysgu lefel isel (hynny yw, yn is na lefel 2) ac mae'n bosibl symud o ddysgu anffurfiol yn syth i addysg uwch.
- Mae'n rhaid i ddysgu ddeillio o ddiddordeb unigolion neu grwpiau ac mae'n rhaid iddo ddigwydd yng nghymunedau'r bobl eu hunain. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd gwledig lle mae bod yn ynysig yn ddaearyddol yn ychwanegu at fod yn ynysig yn gymdeithasol.
- Dylid symud y pwyslais oddi wrth fesur llwyddiant addysgol trwy gyfrif credydau. Mae canlyniadau meddal yn cynnwys grymuso unigolion a'u teuluoedd, hyrwyddo cydlyniad cymdeithasol ac adfywio cymunedau difreintiedig.

- Mae mentrau ar lawr gwlad yn cymryd llawer o amser i'w datblygu, ond maent yn fwy effeithiol a chynaliadwy yn yr hirdymor. Mae'n cymryd amser i bobl ennill hyder er mwyn cyfranogi'n llawn, boed mewn dysgu, adfywio cymunedol, cyflogaeth neu wirfoddoli. Mae atebion cyflym yn brin iawn (er bod y prosiect wedi gweld rhai cyflawniadau sylweddol).
- Gall gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill fod yn fwy effeithiol gan sicrhau cyfranogiad. Mae hynny'n allweddol yn ardaloedd gwledig gogledd Cymru er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael heb ddyblygu'r ddarpariaeth.
- Nid oes gan bobl ddigon o wybodaeth ynglŷn â'r hyn sydd ar gael iddynt (er enghraifft, ynglŷn â chyrsiau, eu lleoliad, a ydynt yn gymwys ac a oes rhaid iddynt dalu ffioedd). Mae'n rhaid lledaenu gwybodaeth mewn lleoliadau sy'n cael defnydd dwys er enghraifft canolfannau iechyd (nid dim ond mewn lleoliadau sy'n cael eu defnyddio'n llai aml fel llyfrgelloedd neu golegau). Hefyd mae gwybodaeth, cyngor a chanllawiau yn llawer mwy gwerthfawr pan gânt eu cyflwyno mewn sefyllfaoedd wyneb yn wyneb.
- Bu cyllido hyblyg yn help i ymateb i sefyllfaoedd annisgwyl – er enghraifft, yr ydym wedi gallu cynnal cyrsiau ar gyfer gweithwyr mudol economaidd sydd wedi eu gwasgaru dros ardal wledig eang.

6. Argymhellion:

- Mae dysgu anffurfiol yn hanfodol er mwyn creu hyder a chael mwy o bobl i gymryd rhan mewn dysgu a chyflogaeth. Bydd llawer o ddysgwyr yn symud ymlaen o ddysgu anffurfiol i ddysgu ffurfiol neu gyflogaeth, ond mae'n bwysig sylweddoli y gall hyn fod yn broses hir. **Yr ydym yn argymell y dylai ffrydiau ariannu fod ar gael i gefnogi gwahanol fathau o ddysgu anffurfiol.**
- Er bod y pwyslais presennol ar ddysgu i gael sgiliau a chyflogaeth, gall arwain at ddibrisio canlyniadau eraill. Dylid ystyried cydlyniad cymdeithasol, hunangyflogaeth, creu microfusnesau, mentrau cymdeithasol a gwirfoddoli fel amcanion yr un mor ddymunol. Maer hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd gwledig lle nad oes llawer o gyfleoedd cyflogaeth o ansawdd uchel. **Yr ydym yn argymell y dylid gweld gwerth mewn ystod eang o ganlyniadau.**

- Mae ymchwil wedi dangos ei bod yn bosibl mesur canlyniadau ‘meddal’ gan ddefnyddio dulliau gwrthrychol. **Yr ydym yn argymell bod angen gwneud mwy o ymchwil am hyn, ond bod digon o dystiolaeth eisoes yn bodoli i gefnogi’r defnydd helaethach o ganlyniadau ‘meddal’ lle bo’n briodol.**
- Mae diffyg cludiant a phrinder gofal plant yn dal i fod yn rhwystrau sylweddol sy’n atal pobl rhag cymryd rhan mewn dysgu mewn ardaloedd gwledig. Bu llawer o sôn am y rhwystrau hyn ond maent yn dal i fod yn bwysig. Er mwyn cael y bobl mewn ardaloedd gwledig i gymryd rhan mewn dysgu, mae’n rhaid mynd â’r dysgu i ddarpar ddysgwyr yn eu cymunedau eu hunain. **Yr ydym yn argymell bod cyllidwyr yn cydnabod y gwir gost o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwasgaredig wrth ddyrannu cyllid.**
- Mae diffyg gwybodaeth am gyfleoedd dysgu, a lle i chwilio am wybodaeth yn rhwystrau i lawer o bobl. Dibynnir yn fwyfwy ar fynediad i’r rhyngrwyd er mwyn lledaenu gwybodaeth ond yn aml mae’r mynediad yn amrywio ac yn dibynnu ar lefelau sgiliau technoleg gwybodaeth yr unigolyn. **Yr ydym yn argymell y dylai’r wybodaeth a roddir fod yn berthnasol, ar gael yn rhwydd ac ar draws ffiniau adrannau’r Cynulliad ac awdurdodau lleol.**
- Mae llawer o’r gwaith mwyaf effeithiol a wneir i gynyddu cyflogadwyedd unigolion, neu i ddatblygu eu potensial i ddysgu yn dibynnu ar gyllid tymor byr. Mae’r dull yma o gyllid yn anochel yn achosi bylchau yn y ddarpariaeth, colli arbenigedd, codi disgwyliadau ffug a diffyg cynaliadwyedd. **Yr ydym yn argymell y dylid blaenoriaethu cyllid tymor canol i hirdymor ar gyfer gweithgareddau mor bwysig â hyn.**